

Dyddiad cyhoeddi: 22 Rhagfyr 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

Atebion i'ch Cwestiynau

D.S. Mae gwybodaeth wedi cael ei darparu ar gyfer TrC (cwmni nid-er-elw sydd ym mherchnogaeth lwywr Llywodraeth Cymru, a gafodd ei sefydlu i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhwydwaith trafniadaeth y mae pobl Cymru'n falch ohono) a Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig (y Cwmni Trenau ac Is-gwmni Trafnidiaeth Cymru)

- 1. A fydddech cystal â darparu ddadansoddiad o'r prinder staff ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Byddwch yn benodol ynghylch y swyddi sy'n wag ar hyn o bryd, fel nifer y gyrrwyr sydd eu hangen.**

TrC

- 1 x Rheolwr Masnachol Cynorthwyol
- 1 x Cyfrifydd Ariannol Cynorthwyol
- 1 x Dadansoddwr Busnes (TG)
- 5 x Gweithiwr Glanhau (Canton)
- 1 x Gweithiwr Glanhau (Caerdybi)
- 1 x Arweinydd Tîm Glanhau
- 1 x Rheolwr Cydymffurfio
- 1 x Gweinyddwr Cwsmeriaid
- 1 x Cynghorydd Ymgysylltu â Chwsmeriaid (Fflecsi)
- 1 x Rheolwr Prosiect Cerbydau Trydan
- 1 x Prentis Cyllid
- 1 x Pennaeth Twf Rhwydwaith
- 1 x Partner Busnes Adnoddau Dynol (Gweithrediadau Trafnidiaeth)
- 1 x Cydlynnydd Adnoddau Dynol
- 1 x Rheolwr Profion Digidol a TG
- 1 x Is-Ddadansoddwr Rhaglenni
- 1 x Cynghorydd Dysgu a Datblygu
- 1 x Dadansoddwr Cynllunio a Pherfformiad
- 1 x Cydlynnydd Prosiect
- 1 x Rheolwr Prosiect (Newid Busnes)
- 1 x Rheolwr Prosiect (Cyfleustodau)
- 1 x Noddwr Prosiectau Rheilffyrdd
- 1 x Dadansoddwr Risg
- 1 x Uwch Reolwr Masnachol
- 1 x Dadansoddwr Desg Gwasanaeth
- 1 x Pensaer Datrysiadau
- 1 x Cydlynnydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf

83 x Goruchwyliwr
65 x Gyrrwr
21 x Fflyd
36 x Rôl Staff y Pencadlys
12 x Rôl Staff Gweithredol
21 x Rôl Staff yr Orsaf

2. A fydddech cystal â darparu dadansoddiad hefyd o'r gwasanaethau a gafodd eu canslo oherwydd prinder gyrrwyr neu giardia. Ni ddylai hyn gynnwys gwasanaethau a gafodd eu canslo am resymau eraill.

Grŵp Gwasanaeth	Wedi Canslo'n Llwyd	Wedi Canslo'n Rhannol
Giard/Goruchwyliwr	346	146
Gyrrwr	417.5	153
Cyfanswm	763.5	299

3. Rwy'n ymwybodol bod llawer o wasanaethau wedi cael eu canslo oherwydd "tywydd". A fydddech cystal â nodi pa rai o'r gwasanaethau hyn fyddai wedi cael eu canslo beth bynnag, beth bynnag fo'r tywydd.

Nid yw'r wybodaeth hon gennym ni, gan nad yw 'digwyddiadau tywydd garw' (neu debyg) yn faes y mae modd chwilio drwyddo ar ein systemau.

4. Hefyd, a fydddech cystal â darparu dadansoddiad o'r lefelau cyflog, y taliadau bonws, y buddion neu'r opsiynau cyfranddaliadau a dderbyniwyd gan eich bwrdd cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Dylai hyn gynnwys bonysau neu fuddion sy'n ddyledus ond heb eu rhoi eto.

Rydyn ni'n gofyn yn barchus am eglurhad gennych ar y pwynt hwn. Mae TrC yn grŵp o gwmnïau gyda phedwar Bwrdd Cyfarwyddwyr. Mae TrC bellach yn berchen ar dri is-gwmni fel a ganlyn: Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig, Gwasanaethau Arloesi TrC a Pullman Rail. Felly, a fydddech cystal â nodi a ydych chi'n dymuno cael yr wybodaeth hon ar gyfer Bwrdd TrC, Bwrdd Rheilffyrdd TrC, Bwrdd Gwasanaethau Arloesi TrC neu Fwrdd Pullman.

5. Sut ydych chi'n cymhwyso eich pecynnau cyfarwyddwyr? Pa fetrigau perfformiad a ddefnyddir i gyfiawnhau'r pecynnau a nodwyd?

Unwaith eto, gofynnwn yn barchus am eich eglurhad ar y pwynt hwn. A fydddech cystal â nodi beth yw ystyr 'pecyn cyfarwyddwyr' yn dilyn yr wybodaeth y gofynnir amdani yng nghwestiwn 4.

6. Pa fetrigau sy'n cael eu defnyddio i fonitro perfformiad cyfarwyddwyr a sut mae'r metrigau hyn yn cael eu cyfrifo?

TrC a Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig

Adolygir perfformiad y cyfarwyddwyr i gyd bob blwyddyn, yn seiliedig ar amcanion y gyfarwyddiaeth ac amcanion personol. Mae metrigau'n amrywio'n fawr ar draws ystod o ganlyniadau gweithredol, ariannol, cwsmeriaid a phobl. Mae'r holl fesurau'n cyd-fynd â chyflawni cynlluniau Blynyddol a Chorfforaethol TrC. Mae llwyddiant y gweithgarwch sy'n mynd rhagddo ym mhob cyfarwyddiaeth yn cael ei adlewyrchu yn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a adroddir i'w Byrddau unigol.

7. Sut mae staff yn cael eu recriwtio a pha gymhellion sy'n cael eu cynnig i staff i'w denu i TrC? Beth yw eich targedau recriwtio a sut ydych chi'n sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni?

Sylwch fod Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig wedi trosglwyddo i berchnogaeth TrC ym mis Chwefror 2021, ac mae'r gwaith wedi bod yn parhau – ac mae yn parhau – ers hynny i sicrhau bod Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig yn cyd-fynd â TrC. O'r herwydd, mae elfennau o'r ateb hwn lle mae TrC a Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig wedi darparu gwybodaeth wahanol, ac eraill lle mae'r ddau yn cyd-fynd ac mae'r ateb hwnnw'n cwmpasu'r ddau gwmni.

TrC a Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig

Ein tîm recriwtio mewnol sy'n recriwtio staff, ac mae'r tîm hwnnw'n hwyluso ein proses recriwtio. Mae hyn yn cynnwys rheoli cyfleoedd mewnol ac allanol; hysbysebu ar-lein ar ein gwefan ein hunain, yn ogystal â safleoedd recriwtio allanol eraill; a mynd ati'n rhagweithiol i ddod o hyd i ymgeiswyr i'w denu i weithio i ni. Pan fyddwn yn denu pobl, byddwn yn dilyn ein prosesau dethol, cyfweld, cynnig a chynefino safonol.

Targedau recriwtio strategol sy'n cynnwys:

- Sefydlu partneriaethau a mentrau ar draws y diwydiant i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau tymor hir ac anghenion sector trafniadaeth Cymru yn y dyfodol.
- Defnyddio strategaethau recriwtio a chadw i ddenu a chadw unigolion cymwys ac amrywiol i'r sefydliad.
- Nifer ac amllder recriwtio criwiau trenau i fodloni gofynion busnes [yn benodol i Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig]

Cyflawnir targedau drwy wneud y canlynol:

- Llenwi nifer uchel o swyddi gwag.
- Darparu proses recriwtio agored a theg.
- Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
- Cynyddu niferoedd mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Lleihau'r gwariant ar ddefnyddio asiantaethau recriwtio.
- Darparu darpariaeth recriwtio ddwyieithog.
- Creu cynlluniau sy'n mynd i'r afael â bylchau sgiliau tymor hir.

D.S. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig i weithredu targedau a strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i sicrhau cysondeb â TrC. Mae prosiect Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant penodol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gyflawni'r canlyniad hwn.

TrC

Mae'r cymhellion i ymuno â TrC yn cynnwys pecyn cyflog cystadleuol sy'n cynnwys:

- 28 diwrnod o wyliau.
- 4 x diwrnod marwolaeth yn y swydd.
- Pensiwn o 8% (gan gynnwys cyfraniad y cyflogwr).



- Teithio am ddim ar rwydwaith TrC.
- Cynllun buddion hyblyg, gan gynnwys cynllun beicio i'r gwaith a chynllun les cerbydau trydan.
- Absenoldeb mamolaeth: 26 wythnos ar gyflog llawn, 13 wythnos ar dâl statudol, 13 wythnos heb dâl.
- Absenoldeb tadolaeth.
- Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, sy'n darparu cyngor ar iechyd a gwasanaethau arbenigol.
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr sy'n darparu gwasanaethau cwnsela i staff.
- Reward Gateway (gostyngiadau i staff). Disgownt ar aelodaeth o gampfa.

Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf

Mae'r cymhellion i ymuno â TrC yn cynnwys pecyn cyflog cystadleuol sy'n cynnwys:

- Mae hawl gwyliau hael yn amrywio yn ôl rôl.
- 4 x diwrnod marwolaeth yn y swydd.
- Pensiwn:
 - Mae gweithwyr nad ydynt wedi'u diogelu fel gweithwyr cyn preifateiddio yn 1992 yn cael 11.9%, ac mae gweithwyr sydd wedi'u diogelu yn cael 13.2%.
 - Pensiwn (cyfraniad y cyflogwr) o 13.29% i weithwyr British Rail.
 - Pensiwn (cyfraniad y cyflogwr) o 11.79% i weithwyr eraill.
 - Cynllun pensiwn cyflog terfynol, hefyd gyda'r cyfle i gyfrannu'n wirfoddol.
- Teithio ar y Rheilffordd am ddim i staff, gwŷr/gwagedd a dibynyddion ar rwydwaith TrC, yn ogystal â theithio hamdden am bris gostyngol ar Gwmnïau Trên eraill.
- Absenoldeb mamolaeth: 12 wythnos ar gyflog llawn, 12 wythnos ar hanner, yna 15 wythnos ar dâl statudol.
- Absenoldeb tadolaeth.
- Cynllun buddion hyblyg gan gynnwys beicio i'r gwaith.
- Rhannu swydd a llai o oriau.
- Prynu gwyliau ar gyfer staff rheoli a chlerigol.
- Budd-dal salwch hael.
- Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, sy'n darparu cyngor ar iechyd a gwasanaethau arbenigol.
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr sy'n darparu gwasanaethau cwnsela i staff.
- Reward Gateway (gostyngiadau staff). Disgownt ar aelodaeth o gampfa.
- Cynllun datblygu gyrfa cyflym.
- Manteision parcio ceir rhatach ar gyfer rhai rolau gweithredol.
- Cyfle i wirfoddoli i weithio mewn digwyddiadau arbennig.
- Cynlluniau gofal iechyd cyfrannol.

8. Pwy sy'n gyfrifol yn gyffredinol (lefel cyfarwyddwr) am recriwtio staff a sut mae llwyddiant y person hwn yn cael ei werthuso?

TrC

Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol.

Caiff llwyddiant ei werthuso drwy bennu amcanion y gyfarwyddiaeth ac amcanion personol. Mae hefyd yn cael ei fesur drwy gyflawni cerrig milltir corfforaethol a dangosyddion perfformiad allweddol.

Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf

Cyfarwyddwr Pobl a Newid.

Caiff llwyddiant ei werthuso drwy Adolygiadau Datblygu Perfformiad.

9. Pwy sy'n gyfrifol am gyfathrebu â chwsmeriaid (lefel cyfarwyddwr) a pha fesurau diogelwch sydd ar waith i sicrhau mai dim ond gwybodaeth ffeithiol sy'n cael ei throsglwyddo i gwsmeriaid yn unol â'ch rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rheilffyrdd?

Mae llawer o wahanol fathau o wybodaeth i gwsmeriaid sy'n dod o wahanol rannau o'r busnes, yn dibynnu ar natur yr wybodaeth honno. Yn gyffredinol, mae gwybodaeth sydd wedi'i chynllunio ymlaen llaw (fel newidiadau i amserlenni, gwaith peirianeg, cyngor teithio ac ati) yn cael ei chyhoeddi gan y Tîm Cyfathrebu, o dan arweiniad Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu TrC. Mae gwybodaeth am hysbysiadau hwyr (fel gwybodaeth am broblemau) yn cael ei chyfleu drwy ein Timau Rheoli 24 awr, o dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig.

Mae Cyfarwyddwr Masnachol a Phrofiad y Cwsmer TrC yn gyfrifol am lunio'r strategaeth, y dull gweithredu a'r ddealltwriaeth gyffredinol o safbwynt y cwsmer, yn ogystal â chyflawni'n uniongyrchol o safbwynt cyfryngau cymdeithasol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwvodaeth Swvddogol neu Gvhoedus".